
Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Bridio a gwerthu cŵn

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

Mawrth 2021



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 7174**
E-bost: **Katy.Orford@Senedd.Cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Blog: **www.ymchwil.senedd.cymru**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2021**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Bridio a gwerthu cŵn
Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

Mawrth 2021

**Awduron:**
Emily Tilby, Matthias Noebels a Katy Orford

Mae Ymchwil y Senedd yn cydnabod y cymrodoriaethau seneddol a roddwyd i Emily Tilby gan Gyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol, ac i Matthias Noebels gan y Cyngor Ymchwil Peirianneg a'r Gwyddorau Ffisegol, a'i gwnaeth yn bosibl cwblhau'r Papur Briffio hwn gan y Gwasanaeth Ymchwil.

Ar 6 Mai 2020, newidiwyd enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Senedd Cymru, ac fe gyfeirir at y sefydliad yn gyffredin fel y Senedd. O ganlyniad, mae cyfeiriadau yn y briff ymchwil hwn yn adlewyrchu'r newid enw, gan gyfeirio at y sefydliad fel y 'Cynulliad' mewn cyd-destun hanesyddol (cyn 6 Mai) a'r 'Senedd' wedi hynny.

# Cynnwys

**Cyflwyniad** ..... 1

**Statws cyfredol bridio a gwerthu cŵn yng Nghymru** ..... 2

**Rheoliadau bridio cŵn** ..... 3

Pryderon ynghylch y rheoliadau cyfredol ..... 4

Camau gweithredu Lywodraeth Cymru ..... 4

Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru ..... 4

Prosiect Gorfodaeth Bridio Cŵn Awdurdodau Lleol ..... 5

Camau gweithredu'r Senedd ..... 5

**Gwerthu cŵn bach gan drydydd parti** ..... 7

Cymhlethdodau'r gwaharddiad ar werthu gan drydydd parti ..... 7

Camau gan Lywodraeth Cymru ..... 8

Ymgynghoriad 2019 ..... 8

Adolygiad Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru ..... 8

Ymgynghoriad 2020 ..... 8

Camau gweithredu'r Senedd ..... 9

**Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021** ..... 10

Ymateb rhanddeiliaid ........ 12

Effaith ar fewnforion cŵn bach ........ 12

Effaith ar sefydliadau lles anifeiliaid ........ 13

**Camau gweithredu gwledydd eraill y DU ........ 15**

Lloegr ........ 15

Yr Alban ........ 15

Gogledd Iwerddon ........ 15

# Cyflwyniad

Mae'r papur briffio hwn yn trafod rheoleiddio bridio a gwerthu cŵn yn y DU. Mae'n nodi rheoliadau yng Nghymru i ddiogelu lles anifeiliaid mewn sefydliadau bridio cŵn. Mae hefyd yn trafod camau gweithredu i wahardd gwerthiant cŵn bach gan drydydd parti. Mae'n disgrifio gweithgaredd gan Lywodraeth Cymru a'r Senedd, yn ogystal â'r darlun ledled y DU.

Mae'r Briff Ymchwil hwn wedi'i ddiweddaru cyn y ddadl ar y *Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021* i wahardd gwerthiant cŵn bach a chathod bach gan drydydd parti.

# Statws cyfredol bridio a gwerthu cŵn yng Nghymru

Mae lles cŵn mewn sefydliadau bridio wedi cael **sylw cyhoeddus** ledled y DU yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Ar hyn o bryd, rheoleiddir bridio cŵn o dan **Reoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014** ('Rheoliadau 2014'). Mae Rheoliadau 2014 yn gwneud trwyddedau'n ofynnol i fridwyr sy'n cadw tair gast fridio neu fwy, sy'n bridio tri thorraid neu fwy o gŵn bach mewn cyfnod 12 mis, ac sy'n cyflenwi neu'n gwerthu cŵn bach o'r toreidiau hyn.

O ran maint y peth, canfu adolygiad **Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid** fod 260 o drwyddedau bridio cŵn yn weithredol yng Nghymru yn 2019, a bod tair o'r trwyddedau hyn ar gyfer mwy na 100 o eist bridio. Mae'r adolygiad yn amcangyfrif bod y sefydliadau bridio trwyddedig hyn yn cynhyrchu rhwng 16,000 a 25,000 o gŵn bach y flwyddyn. Mae'n nodi bod y ffigur hwn rhwng 2 a 3 y cant o'r 750,000 o gŵn sydd eu hangen bob blwyddyn, fe amcangyfrifir, i gynnal poblogaeth cŵn y DU, neu 20 i 50 y cant o'r amcangyfrif o 50,000-75,000 o gŵn sy'n cael eu bridio yng Nghymru bob blwyddyn.

Cafwyd apeliadau gan grwpiau lles anifeiliaid a'r cyhoedd i Lywodraeth Cymru adolygu Rheoliadau 2014 a'u cryfhau.

Mae'r ffordd y caiff cŵn bach eu gwerthu hefyd wedi bod yn destun sylw. Yng Nghymru, mae cŵn yn cael eu prynu / caffael oddi wrth:

- Fridwyr trwyddedig;
- Bridwyr didrwydded cyfreithiol (y rhai sy'n bridio un neu ddau o doreidiau'r flwyddyn);
- Bridwyr didrwydded anghyfreithlon (y rhai sy'n bridio mwy na dau dorraid y flwyddyn ond nad oes ganddynt drwydded);
- Trydydd partïon (megis siopau anifeiliaid anwes); a
- Sefydliadau ailgartrefu.

Bu ymgyrch ledled y DU i wahardd trydydd partïon rhag gwerthu cŵn bach (sef ymgyrch 'cyfraith Lucy'). Mae hyn yn cael ei weithredu i raddau gwahanol ledled y DU (manylir yn ddiweddarach). O ran maint y mater, nid oes cofnodion cenedlaethol o nifer y cŵn bach a werthir trwy drydydd partïon.

# Rheoliadau bridio cŵn

## Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru Reoliadau 2014 gyda'r nod o wella safonau lles ym maes bridio cŵn. Disodlodd Rheoliadau 2014 ***Ddeddf Bridio Cŵn 1973*** yng Nghymru, gan gyflwyno meini prawf lles manylach ar gyfer bridio cŵn. Mae Rheoliadau 2014:

- Yn ei gwneud yn ofynnol i drwyddedu bridwyr sy'n cadw o leiaf dair gast fridio ac sydd naill ai'n bridio, yn gwerthu, yn cyflenwi neu'n hysbysebu bridio neu gŵn bach i'w gwerthu o'u heiddo;
- Yn cyflwyno safonau lles llymach ar gyfer sefydliadau bridio;
- Yn ei gwneud yn ofynnol i fridwyr fabwysiadu rhaglenni cymdeithasoli, gwella a chyfoethogi ar gyfer eu hanifeiliaid; ac
- Yn creu lleiafswm cymhareb o un aelod staff amser llawn i 20 o gŵn llawn dwf, neu un aelod staff rhan amser i 10 o gŵn llawn dwf.

Gorfodir Rheoliadau 2014 gan awdurdodau lleol. Ym mis Ebrill 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Sefydliadau bridio cŵn: canllaw i awdurdodau lleol**. Nod y canllaw yw sicrhau bod anghenion ci, fel y'u nodir yn Adran 9 o ***Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006***, yn cael eu diwallu. Mae'r rhain yn cynnwys:

(a) am amgylchedd addas;

(b) am ddeiet addas;

(c) i fedru arddangos patrymau ymddygiad normal;

(ch) ei angen naill ai i gael ei gadw gydag anifeiliaid eraill, neu ar wahân iddynt;

(d) i gael ei amddiffyn rhag poen, dioddefaint, anaf a chlefyd.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru wedi datblygu Amodau Trwyddedu Model. Mae'r Amodau'n diffinio'r gofal corfforol sydd ei angen ar eist bridio a chŵn bach ac maent yn cyflwyno gofynion newydd yn ymwneud â **chymdeithasoli a chyfoethogi amgylcheddol**, gyda'r nod o helpu i sicrhau bod cŵn bach yn cael eu paratoi'n well ar gyfer bywyd gyda theulu.

## Pryderon ynghylch y rheoliadau cyfredol

Mae sawl elusen lles anifeiliaid yn poeni nad yw'r rheoliadau presennol yn mynd yn ddigon pell i ddiogelu iechyd a lles cŵn. Mae'r rhain yn cynnwys **RSPCA Cymru** a'r **Dogs Trust.** Mae **Delivering for a decade: 10 years of the Animal Welfare Act in Wales: 2007–2017** (PDF 1.37MB) RSPCA Cymru yn amlinellu ei phryderon parhaus ynghylch bridio cŵn, yn enwedig o ran y cymarebau o staff i gŵn. Mae'n argymell:

> While a positive step forward, the minimum one staff member to 20 breeding bitches ratio threatens to undermine the purpose of the regulations. Sadly, this ratio excludes puppies. Given that one breeding bitch could have a litter of up to 10 puppies, RSPCA Cymru fears this ratio will provide a legal safeguard to a situation whereby one attendant faces the prospect of caring for more than 200 dogs and puppies at once – allowing little over 120 seconds to provide for each animal in a working day. RSPCA Cymru has long argued that any minimum staffing ratio should take into account puppies, studs and bitches.

Cyfeiriodd ymatebwyr i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru **Gwerthiant Trydydd Parti Cŵn a Chathod Bach** (Chwefror 2019) (trafodir isod) at anallu awdurdodau lleol i ymchwilio'n briodol i sefydliadau bridio trwyddedig oherwydd diffyg adnoddau a hyfforddiant cyfyngedig.

## Camau gweithredu Lywodraeth Cymru

Yn dilyn **rhaglen ddogfen gan y BBC** a oedd yn tynnu sylw at les gwael mewn rhai sefydliadau bridio, ym mis Hydref 2019, amlinellodd Lesley Griffiths AC, **Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig** ('y Gweinidog') gamau gweithredu brys i reoleiddio'r diwydiant, yn cynnwys adolygiad o Reoliadau 2014.

> Rwyf wedi ysgrifennu at y Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid i dderbyn eu cynnig i helpu ac wedi gwneud cais am adolygiad ar fyrder o'n rheoliadau bridio cŵn. Bydd yr adolygiad hwn yn cynnwys ystyriaeth lawn o unrhyw rwystrau cyfredol i orfodi, a sut y darperir cyngor milfeddygol di-duedd yn ystod y broses drwyddedu ac archwilio.
>
> Rwyf wedi ysgrifennu at bob Prif Swyddog Milfeddygol o fewn Awdurdodau Lleol i godi pryderon a gwahodd cynrychiolwyr perthnasol i gyfarfod gyda Phrif Swyddog Milfeddygol Cymru i drafod y broses drwyddedu, gorfodi a rhwystrau iddi.
>
> Tynnodd Brif Swyddog Milfeddygol Cymru sylw Coleg Brenhinol y Milfeddygon at raglen y BBC ar unwaith.
>
> Mae swyddogion yn datblygu ymgyrch wedi'i hanelu at aelodau'r cyhoedd sydd o bosibl yn ystyried prynu cŵn bach, gan dynnu sylw at bwysigrwydd dod o hyd i un mewn ffordd gyfrifol.

### Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru

Cafodd **adolygiad Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru o Reoliadau 2014 ei gyhoeddi ar 4 Mawrth 2020** ynghyd â **datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog**.

Gwnaeth yr adolygiad bedwar argymhelliad allweddol:

1. Mae angen hyfforddiant pellach fel y gellir gorfodi'r darpariaethau presennol yn effeithiol. Dylai hyn fod yn benodol ar gyfer arolygwyr trwyddedu awdurdodau, milfeddygon arolygu a milfeddygon preifat.
2. Mae angen gwell olrhain cŵn fel y gellir gorfodi'r darpariaethau presennol yn effeithiol. Gall hyn gynnwys cofrestru pob bridiwr cŵn a gwell cydymffurfio â deddfwriaeth microsglodynnu.
3. Ailystyried y gymhareb isaf bresennol o aelodau staff i gŵn.Gall rhoi cap ar gyfanswm y cŵn ym mhob sefydliad bridio fod yn fuddiol.
4. Ystyried ac adolygu deddfwriaeth arall ar frys, a all gynnwys gwahardd trydydd partïon rhag gwerthu cŵn a gwella rheoliadau microsglodynnu.

### Prosiect Gorfodaeth Bridio Cŵn Awdurdodau Lleol

Mewn ymateb i'r adolygiad, lansiodd y Gweinidog **"Brosiect Gorfodaeth Bridio Cŵn Awdurdodau Lleol"** (PDF 430 KB). Dyrannwyd £1m o gyllid Llywodraeth Cymru iddo dros dair blynedd. Nod y prosiect yw hyfforddi staff awdurdodau lleol sy'n ymwneud â thrwyddedu i wella cysondeb o ran arolygu a gorfodi'r rheoliadau. Mae'r prosiect hefyd yn anelu at wella'r defnydd o'r adnoddau sydd ar gael a datblygu strategaeth gwybodaeth bridio cŵn ranbarthol i ymladd ac atal bridwyr cŵn anghyfreithlon a didrwydded. Yn ôl y Gweinidog, bu oedi gyda'r prosiect oherwydd pandemig y Coronafeirws, ond mae cynnydd wedi'i wneud o ran sefydlu cyrsiau hyfforddi, argymell canllawiau gorfodi, a gwella'r seilwaith TG. Dywedodd y Gweinidog nad oedd cynlluniau uniongyrchol i gynnig gwelliannau pellach i Reoliadau 2014 a argymhellwyd gan yr adolygiad. **Croesawodd RSPCA Cymru lansiad y prosiect**, ond mynegodd bryderon nad oedd cynlluniau uniongyrchol i ddiwygio cyfreithiau bridio cŵn Cymru.

## Camau gweithredu'r Senedd

Ar **12 Rhagfyr 2018 cynhaliodd y Cynulliad ddadl fer ynglŷn â bridio cŵn**, gyda rhai Aelodau o'r Senedd yn honni bod arferion gwael o ran bridio cŵn yn anghymesur o uchel yng Nghymru.

Ers hynny, mae bridio cŵn wedi bod yn destun dadl **sawl gwaith** yn y Cyfarfod Llawn. Mae hyn wedi cynnwys g**alwadau gan Aelodau** i Lywodraeth Cymru adolygu Rheoliadau 2014.

Mae **Pwyllgor Deisebau**'r Senedd wedi cael sawl deiseb ynghylch lles anifeiliaid mewn sefydliadau bridio cŵn yn ystod y Senedd hon/Cynulliad hwn:

- **P-05-915: Galwad am well gorfodaeth o ffermydd cŵn bach yng Nghymru**. Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Laura Clays, ar ôl casglu 112 o lofnodion;
- **P-05-939 Gosod embargo ar unwaith ar drwyddedau bridio cŵn newydd, ar adnewyddu trwyddedau ac ar geisiadau cynllunio nes bod y rheoliadau'n addas i'r diben a nes bod modd eu gorfodi**. Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan C.A.R.I.A.D., ar ôl casglu 1,738 o lofnodion; a
- **P-05-951 Gosodwch derfyn cyfreithiol ar uchafswm y geist bridio mewn sefydliadau bridio cŵn trwyddedig yng Nghymru**. Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Dinah Mulholland, ar ôl casglu cyfanswm o 229 o lofnodion.

Holodd **Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig** y Senedd y Gweinidog am y maes polisi hwn yn ei **adroddiad craffu ar y gyllideb ddrafft (2021-22) (PDF 517 KB)** a gyhoeddwyd ar 4 Chwefror 2021. Roedd y Pwyllgor wedi mynegi pryderon o'r blaen ynghylch sut y byddai awdurdodau lleol yn talu'r costau sy'n gysylltiedig â rheoliadau pellach sefydliadau bridio a gwerthu cŵn. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad o'r gyllideb a ddyrannwyd i Brosiect Gorfodaeth Bridio Cŵn Awdurdodau Lleol. Gofynnodd hefyd am fanylion unrhyw asesiad presennol neu asesiad a gynlluniwyd o effaith y prosiect ar alluoedd gorfodi ac adnoddau awdurdodau lleol. Cafodd y Pwyllgor ymateb gan y Gweinidog ar 5 Mawrth gyda gwybodaeth am y prosiect (manylir uchod).

# Gwerthu cŵn bach gan drydydd parti

Cyfeirir at siopau anifeiliaid anwes, delwyr anifeiliaid anwes a siopau eraill nad ydyn nhw'n bridio anifeiliaid eu hunain fel trydydd partïon. Byddai gwaharddiad ar werthu cŵn bach gan ddelwyr masnachol trydydd parti yn golygu na fyddai gwerthwyr cŵn bach yn gallu gwerthu'r anifeiliaid anwes hyn **oni bai eu bod nhw eu hunain wedi eu bridio**, gan wella atebolrwydd. Galwyd am y gwaharddiad gan **'Gyfraith Lucy'**, ymgyrch ledled y DU gan y grŵp **C.A.R.I.A.D.** (Care and Respect Includes All Dogs). Cafodd yr ymgyrch yr enw 'cyfraith Lucy' ar ôl sbaengi Siarl Cafalîr o'r enw Lucy, a gafodd ei bridio'n galed o dan amodau gwael.

Sail y gwaharddiad yw lles anifeiliaid. Byddai'n atal cŵn bach rhag cael eu tynnu oddi wrth eu mam a gweddill y torraid yn ifanc er mwyn eu gwerthu. Canfu adolygiad Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru fod cysylltiad rhwng gwerthwyr trydydd parti ac amodau gwael yn y sefydliad bridio. Awgrymodd y gallai hyn fod oherwydd nad yw prynwyr yn gweld rhyw lawer o'r sefydliadau bridio. Mae'r ymgyrch hefyd yn taeru bod gwerthiannau trydydd parti yn creu risgiau ychwanegol i gwsmeriaid ac i iechyd a diogelwch y cyhoedd, trwy brynu cŵn bach sy'n sâl neu sydd heb gael eu cymdeithasoli.

## Cymhlethdodau'r gwaharddiad ar werthu gan drydydd parti

Dadleuwyd y gallai gwaharddiad arwain at ganlyniadau anfwriadol. **Mae Llywodraeth y DU wedi gwrthod yn flaenorol (2017)** argymhelliad gan **Bwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (EFRA**) yn Senedd y DU i wahardd gwerthiannau trydydd parti. Nododd y gallai gwaharddiad arwain at gynnydd o ran bridio didrwydded ac y gallai arwain at gynnydd yng ngwerthiant a dosbarthiad anghyfrifol cŵn bach. Fodd bynnag, fel y'i disgrifir isod, cyflwynodd Llywodraeth y DU reoliadau yn ddiweddarach i wahardd gwerthu cŵn bach gan drydydd parti.

Mae **Ffederasiwn y Diwydiant Anifeiliaid Anwes**, sy'n cynrychioli buddiannau busnesau anifeiliaid anwes y DU, yn dadlau y byddai gwaharddiad llwyr yn arwain at werthu cudd. Mae'n nodi bod angen addysg ar gyfer darpar berchnogion cŵn bach a chathod bach newydd ynghylch prynu ar fympwy ac ynghylch bridio cyfrifol.

Mae'r Ymddiriedolaeth Cŵn yn taeru bod cymhlethdod y mater yn golygu y gellir dod â gwerthu trydydd parti i ben trwy gyflwyno gwaharddiad fel rhan o **becyn cynhwysfawr o fesurau cydgysylltiedig**. Mae'n galw ar Lywodraeth Cymru i gau bylchau, gan ddweud:

- Dylid rheoleiddio'r holl ganolfannau ailgartrefu a llochesi, gan honni y gallai bridwyr twyllodrus ymsefydlu fel un o'r rhain yn hawdd;
- Dylai awdurdodau lleol fod yn ymwybodol o unrhyw un sy'n bridio neu sy'n gwerthu cŵn bach er mwyn atal arfer gwael ymysg bridwyr; a
- Dylai fod rheolaethau llymach ar deithiau anifeiliaid anwes er mwyn atal smyglo cŵn bach o dramor.

## Camau gan Lywodraeth Cymru

### Ymgynghoriad 2019

Ym mis Chwefror 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad, **Gwerthiant trydydd parti cŵn a chathod bach**. Roedd **mwyafrif yr ymatebwyr** i'r ymgynghoriad yn teimlo y byddai gwaharddiad yn cael effaith gadarnhaol. Fodd bynnag, galwodd rhai am system drwyddedu gadarnach i wneud bridwyr a gwerthwyr i wella eu hamlygrwydd ac i wella olrhain. Fel y trafodwyd, roedd rhai sefydliadau ac unigolion yn teimlo y byddai angen i waharddiad ar werthwyr trydydd parti fod yn rhan o becyn o fesurau er mwyn osgoi canlyniadau anfwriadol yn deillio o'r gwaharddiad.

Gofynnodd yr ymgynghoriad hefyd a oedd ymatebwyr yn teimlo y byddai'r gwaharddiad yn cael effaith ar ganolfannau ailgartrefu. Teimlodd llawer o ymatebwyr y byddai'r gwaharddiad yn cael effaith gadarnhaol ar y rhain, ond mynegwyd pryderon gan rai unigolion. Dywedodd un ymatebwr:

> I would expect rehoming centres to have a temporary bigger influx of dogs/cats in need. As by then, the unlawful third-party sellers would be offloading what they would see as no longer a valuable resource. So an initial support grant to help cope with this should be provided for.

### Adolygiad Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru

Trafodwyd ymarferoldeb ac effaith gwaharddiad ar werthu gan drydydd partïon hefyd yn yr **adolygiad Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru a gyhoeddwyd ar 4 Mawrth 2020 a enwyd eisoes**. Er bod y grŵp yn cefnogi gwaharddiad ar werthu cŵn bach gan drydydd parti, roedd yn cydnabod pryderon y gallai'r gwaharddiad arwain at gynnydd o ran cludo geist beichiog yn lle cŵn bach.

### Ymgynghoriad 2020

Ar 22 Mehefin 2020, lansiodd Llywodraeth Cymru ail ymgynghoriad cyhoeddus

**Gwahardd gerthu cŵn a chathod bach gan drydydd parti'**. Mae'r ymgynghoriad yn cynnwys newid y trefniadau trwyddedu ar gyfer gwerthu anifeiliaid anwes, gan gynnwys cŵn bach a chathod bach. Roedd yr ymgynghoriad yn nodi y byddai'r gwaharddiad arfaethedig yn:

- Sicrhau cysondeb â chyngor Llywodraeth Cymru y dylai prynwyr geisio gweld y cŵn bach neu'r cathod bach gyda'u mam
- Cymell gwelliannau lles mewn sefydliadau bridio cŵn masnachol prysur iawn drwy sicrhau eu bod yn dryloyw, yn atebol ac yn talu eu bridwyr yn iawn;
- Helpu prynwyr i wneud dewisiadau doeth yn seiliedig ar weld ci bach neu gath fach gyda'u mam ac annog penderfyniadau prynu cyfrifol; a
- Gwerthu llai o gŵn bach sydd heb gael eu magu i'r safonau lles cydnabyddedig yng Nghymru.

Roedd cwestiynau'r ymgynghoriad yn ymwneud ag ymestyn y gwaharddiad i anifeiliaid eraill ac archwilio mesurau eraill i fynd i'r afael â'r problemau lles sy'n gysylltiedig â gwerthwyr trydydd parti masnachol. Gofynnodd a ddylai canolfannau lloches/ailgartrefu/achub gael eu dosbarthu'n werthwyr trydydd parti masnachol a chael eu trwyddedu.

Er bod 97 y cant o'r ymatebwyr **yn cytuno â gwahardd gwerthu cŵn a chathod bach yn fasnachol gan drydydd parti** (PDF 681 KB), roedd pryder arbennig ynghylch sefydliadau lles anifeiliaid, e.e. canolfannau lloches ac ailgartrefu. Dadleuodd 96 y cant o ymatebwyr o blaid craffu'n fanylach ar sefydliadau lles anifeiliaid, ond roedd gwahaniaeth barn ynghylch a ddylid dosbarthu a thrwyddedu sefydliadau o'r fath fel gwerthwyr trydydd parti masnachol ai peidio.

Galwodd ymatebwyr hefyd am gamau gweithredu pellach, fel:

- Gwaharddiad ar werthu cŵn o bob oed yn fasnachol gan drydydd partion;
- Cynnwys addysg am les anifeiliaid yn y cwricwlwm cenedlaethol; a
- Deddfwriaeth debyg i Loegr a gwledydd datganoledig eraill.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, ***Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021,*** gwahardd gwerthiant cŵn bach a chathod bach gan drydydd partion. Mae manylion am y rheoliadau wedi'u darparu isod:

## Camau gweithredu'r Senedd

Mae'r Pwyllgor Deisebau wedi ystyried y ddeiseb **P-05-856: Rhaid gwahardd gwerthu cŵn bach gan siopau anifeiliaid anwes a phob gwerthwr trydydd parti masnachol yng Nghymru**. Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan C.A.R.I.A.D., ar ôl casglu 11,195 o lofnodion.

Mae cyfraith Lucy wedi bod yn destun dadl yn y Cyfarfod Llawn **sawl gwaith** yn ystod y Cynulliad hwn/ Senedd hon. Trafododd yr Aelodau'r mater ar **29 Ionawr 2020**, ac ailadroddodd y Gweinidog ei hymrwymiad i gyflwyno'r gwaharddiad ar werthu gan drydydd parti.

Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig wedi **mynd ar drywydd** y mater hwn yn gyson gyda'r Gweinidog, gan gefnogi'r gwaharddiad ar werthu gan drydydd parti.

## Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu

# Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021

Cafodd y ***Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021*** eu gosod gan Lywodraeth Cymru ar 27 Ionawr 2021 a'u hail-osod ar 2 Mawrth 2021 i'w trafod gan y Senedd ar 23 Mawrth 2021. Disgwylir iddynt ddod i rym ar 10 Medi 2021. Mae'r rheoliadau'n cyflwyno cytundebau trwyddedu newydd o dan adran 13 o ***Deddf Lles Anifeiliaid 2006***.

Mae Rheoliadau 2021 yn:

- ei gwneud yn ofynnol i gael trwydded ar gyfer gwerthu anifeiliaid fel anifeiliaid anwes, fel busnes gan gynnwys cadw anifeiliaid gyda'r bwriad o'u gwerthu neu eu hailwerthu (y "gweithgareddau trwyddedig");
- gwahardd gwerthu cŵn, cathod, ffuredau neu wningod sy'n llai nag 8 wythnos oed;
- gwahardd gwerthu cŵn bach neu gathod bach, h.y. cŵn neu gathod sy'n llai na 6 mis oed, pan nad ydynt wedi'u bridio gan ddeiliad y drwydded ar yr un safle; ac yn
- ei gwneud yn ofynnol bod darpar berchnogion anifail anwes yn cael gwybod am ofal priodol a bod staff yn cael eu hyfforddi yn unol â hynny.

Mae Rheoliadau 2021 hefyd yn cyflwyno safonau lles ar gyfer sefydliadau gwerthu ar:

- Staffio
- Amgylchedd addas;
- Deiet addas;
- Monitro ymddygiad a hyfforddiant anifeiliaid;
- Trin anifeiliaid a rhyngweithio ag anifeiliaid
- Diogelu rhag poen, dioddefaint, anaf ac afiechyd; a
- Llety addas.

Nid yw Rheoliadau 2021 yn berthnasol i fridwyr cŵn sydd wedi'u trwyddedu o dan Reoliadau 2014, sydd ond yn gwerthu cŵn a fridwyd ganddynt hwy eu hunain ac sy'n gwerthu cŵn bach o'r safle bridio yn unig. Nid yw'r safonau lles ychwanegol ar gyfer sefydliadau gwerthu a darparu gwybodaeth am ofal priodol i brynwyr, a

nodir yn Rheoliadau 2021, yn berthnasol i fridwyr cŵn sydd wedi'u trwyddedu o dan Reoliadau 2014 sy'n gwerthu cŵn a fridiwyd ganddynt hwy eu hunain. Serch hynny, mae'r safonau lles anifeiliaid o dan Reoliadau 2014, fel y nodir uchod, yn berthnasol i'r bridwyr cŵn hynny.

Rhoddir trwyddedau gan awdurdodau lleol ar ôl archwilio safle'r sefydliad gwerthu ac maent yn ddilys am flwyddyn. Rhaid i awdurdodau lleol hefyd roi gwybod i Weinidogion Cymru am nifer y trwyddedau a roddir.

Bydd cyflawni gweithgareddau trwyddedig heb drwydded yn drosedd o dan adran 13(6) o *Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006* a gall arwain at garchar o hyd at 6 mis a / neu ddirwy. Bydd torri amodau trwydded yn drosedd o dan reoliad 19(1) o Reoliadau 2021 a gall arwain at ddirwy ac atal dros dro, amrywio heb gydsyniad neu ddirymu trwydded. Ni fydd person y cafodd ei drwydded ei dirymu yn y gorffennol yn gallu gwneud cais am drwydded newydd.

Pwysleisiodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig yn y **Memorandwm Esboniadol (PDF 353 KB)** y bydd Rheoliadau 2021 yn rhoi cyfle yn y dyfodol i gynnwys gweithgareddau trwyddedig eraill sy'n gysylltiedig ag anifeiliaid, er enghraifft stablau ceffylau ac ysgolion marchogaeth. Mae rhai trwyddedau ychwanegol eisoes wedi'u cynnwys yn rheoliadau **Lloegr** a'r **Alban**.

## Ymateb rhanddeiliaid

Mae Rheoliadau 2021 wedi cael croeso gofalus gan y Dogs Trust (mewn gohebiaeth ag Ymchwil y Senedd) a **RSPCA Cymru** fel cam yn agosach at waharddiad ar werthu cŵn bach gan drydydd parti. Fodd bynnag, dywedant fod angen cymryd camau pellach fel y nodir isod. Mae rhanddeiliaid yn tynnu sylw at y ffaith bod gorfodi Rheoliadau 2021 yn allweddol ar gyfer y gwaharddiad ar werthu gan drydydd parti er mwyn gwella lles anifeiliaid.

### Effaith ar fewnforion cŵn bach

Mae mewnforion cŵn i'r DU yn sylweddol, yn enwedig wrth i bandemig y Coronafeirws greu cynnydd yn y galw am gŵn. Yn 2020, **mewnforiwyd 63,320 o gŵn yn fasnachol** (2019: 44,561 o gŵn).

Ar hyn o bryd mae dau lwybr ar gyfer mewnforio cŵn i Brydain Fawr, y **Cynllun Teithio Anifeiliaid Anwes** (PETS, 576/2013/EEC) ar gyfer symud hyd at bum anifail y pen yn anfasnachol, a **Chyfarwyddeb Balai** (92/65/EEC *(fel y'i diwygiwyd)*) ar gyfer symud masnachol. Mae'r rheolau hyn yn aros yr un fath yn dilyn ymadawiad

y DU â'r UE. Yn gyffredinol mae'n rhaid i gi fod wedi'i ficrosglodynnu, ei frechu rhag y gynddaredd, a bod â phasbort anifail anwes, Tystysgrif Iechyd Anifeiliaid (AHC) neu dystysgrif iechyd anifeiliaid anwes Prydain Fawr, yn dibynnu ar y llwybr mewnforio a'r wlad y mae'r ci yn teithio ohoni. Oherwydd gofynion brechu, yn gyffredinol mae'n rhaid i gŵn bach fod yn 15 wythnos oed o leiaf er mwyn cael eu mewnforio'n gyfreithiol i'r DU o dan y naill lwybr mewnforio neu'r llall.

**Mynegwyd pryderon gan sefydliadau lles anifeiliaid (PDF 7.47 MB)** fod llwybrau mewnforio yn cael eu hecsbloetio ar gyfer mewnforion cŵn bach anghyfreithlon. Rhai o'r pryderon a fynegwyd yw amodau lles anifeiliaid mewn sefydliadau bridio dramor, mewnforio cŵn bach sy'n iau na'r terfyn oedran cyfreithiol, a diffyg gorfodaeth. Soniodd llawer o'r rhai a gymerodd ran yn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru **'Gwaharddiad ar Werthu Trydydd Parti Cŵn Bach a chathod Bach'** fod mewnforion cŵn bach yn broblem.

Mae Rheoliadau 2021 yn ei gwneud yn ofynnol na ellir gwerthu cŵn bach na chathod bach oni bai eu bod wedi cael eu bridio gan ddeiliad y drwydded ar y safle. Fodd bynnag, nid oes gofyniad na ellir ond dangos ci bach i ddarpar brynwr os yw gyda'i fam fiolegol, fel y mae, er enghraifft, yn Lloegr o dan y ***Rheoliadau Lles Anifeiliaid*** *(Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Lloegr) 2018*.

Soniodd y Dogs Trust (mewn gohebiaeth ag Ymchwil y Senedd) fod olrhain cŵn bach a rheoliadau pellach ynghylch teithio a mewnforio anifeiliaid anwes yn hanfodol i atal smyglo. **Mae RSPCA Cymru wedi mynegi pryderon** bod Rheoliadau 2021 yn gadael bylchau y gall bridwyr llygredig eu hecsbloetio.

## Effaith ar sefydliadau lles anifeiliaid

Gofynnodd mwyafrif y rhai a gymerodd ran yn ymgynghoriad 2020 Llywodraeth Cymru **'Gwahardd gwerthu cŵn a chathod bach gan drydydd parti'** am graffu manylach ar sefydliadau lles anifeiliaid yng Nghymru, naill ai drwy eu dosbarthu fel gwerthwyr masnachol neu drwy gyflwyno dull trwyddedu pwrpasol ar gyfer sefydliadau lles anifeiliaid.

Mae ansicrwydd yn parhau ynghylch effaith Rheoliadau 2021 ar sefydliadau lles

anifeiliaid, fel cartrefi achub, gan nad oes eglurhad eto ynghylch a yw sefydliadau o'r fath yn cyflawni gweithgareddau trwyddedig o dan Reoliadau 2021. Mae Rheoliadau 2021 yn mynnu bod yn rhaid i bob anifail sydd ar werth fod mewn iechyd da, ac na ddylid gwerthu anifeiliaid sy'n cael unrhyw driniaeth feddygol. Os yw'r rheoliadau'n berthnasol i sefydliadau lles anifeiliaid, gallai hyn eu gwahardd rhag ail-gartrefu anifeiliaid mewn iechyd gwael, er enghraifft oherwydd gofal amhriodol gan eu perchnogion blaenorol.

Yn yr Alban, mae **Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Yr Alban) 2021** yn cynnwys trwyddedu pwrpasol ar gyfer sefydliadau lles anifeiliaid.

Soniodd **RSPCA Cymru** a'r Dogs Trust (mewn gohebiaeth ag Ymchwil y Senedd) am absenoldeb darpariaeth ar gyfer sefydliadau sy'n ailgartrefu, llochesau neu gartrefi achub fel un o'r materion allweddol sy'n ymwneud â Rheoliadau 2021. Dywed RSPCA Cymru y dylai sefydliadau o'r fath gael eu heithrio o'r gofyniad am drwydded werthu ar y naill law, fel y gellir ailgartrefu anifeiliaid anwes pan fyddant yn cael eu hachub o sefyllfaoedd niweidiol. Ar y llaw arall, mae RSPCA Cymru yn mynegi ofn y gallai gwerthwyr trydydd parti frandio eu hunain fel cartrefi achub er mwyn osgoi gofynion trwyddedu.

# Camau gweithredu gwledydd eraill y DU

## Lloegr

Ym mis Chwefror 2018, **lansiodd Llywodraeth y DU ymgynghoriad** ar wahardd gwerthu cŵn bach gan drydydd parti. Ymgynghoriad ar gyfer Lloegr yn unig ydoedd. Dadleuodd tua 70 y cant o'r ymatebion o blaid gwaharddiad, a dadleuodd llai na 10 y cant yn erbyn. Ar 23 Rhagfyr 2018, cadarnhaodd Defra y byddai'n gwahardd gwerthu cŵn bach a chathod bach gan drydydd parti yn Lloegr. Daeth y gwaharddiad i rym ar 6 Ebrill 2020 o dan ***Reoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Cynnwys Anifeiliaid) (Lloegr) (Diwygio) 2019***. Ceir rhagor o wybodaeth mewn **datganiad i'r wasg gan Lywodraeth y DU**.

## Yr Alban

Mae ***Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Yr Alban) 2021*** (a wnaed ar 17 Chwefror 2021; sy'n dod i rym ar 1 Medi 2021) yn gwahardd gwerthu cŵn bach a chathod bach gan drydydd parti. Mae'r rheoliadau hefyd yn cyflwyno dull trwyddedu pwrpasol ar gyfer gweithgareddau ail-gartrefu anifeiliaid

## Gogledd Iwerddon

Nid yw Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA) wedi ymgynghori'n gyhoeddus ar wahardd gwerthu cŵn bach gan drydydd parti. Yn ystod 2018, cynhaliodd DAERA adolygiad o sefydliadau anifeiliaid, gan gynnwys sefydliadau sy'n gwerthu anifeiliaid anwes. Yn 2019, fe ymgysylltodd â'r cyrff gorfodi a chael eu barn ynghylch y system drwyddedu yn y dyfodol. Mae DAERA yn parhau i ddatblygu cynigion ar system y dyfodol.